**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (150)**

**Pleidleisiau a Thrafodion dydd Mercher, 6 Gorffennaf 2005**

**Dechreuodd y Cyfarfod am 2.00pm**

**.......................................**

## 2.00pm

### Cynnig i ethol y Pwyllgor Cynghori i adolygu ariannu ysgolion.

### NDM2527 Jane Hutt (Bro Morgannwg).

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol yr Aelodau canlynol i'r Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion:

Denise Idris Jones (Llafur)
Lynne Neagle (Llafur)
Janet Ryder (Plaid Cymru)
William Graham (Ceidwadwyr)
Peter Black (Democratiaid Rhyddfrydol)

Bydd y pwyllgor yn ethol ei gadeirydd ei hun.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O Blaid 31; Ymatal 0; Yn erbyn 1; Cyfanswm 32
**Derbyniwyd y cynnig.**

**.......................................**

## 2.01pm

### Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Atebwyd y 12 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 3+10 a 4+5 eu grwpio. Ni ofynnwyd cwestiynau 7

+11.

....................................

## 2.32pm

Atebwyd y 12 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 2+5 a 4+11 eu grwpio.

...................................

## 3.07pm

**Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2005 i Brif Weinidog Cymru.**

**NDM2529 Jane Hutt (Bro Morgannwg).**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu dan adran 62 (1) (b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog Cymru holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn neu o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, ac eithrio'r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Gwneir y dirprwyo hwn ar y ddealltwriaeth y dirprwyir y swyddogaethau hynny ymhellach, fel y bo'n briodol, i'r Gweinidog Cynulliad priodol ac i staff.

*Gellir canfod copi o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ar y rhyngrwyd drwy ddilyn y ddolen gysylltiedig:*
http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2005/20050010.htm

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O Blaid 47; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 47
**Derbyniwyd y cynnig.**

....................................

## 3.10pm

**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005.**

**NDM2531 Jane Hutt (Bro Morgannwg).**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mehefin 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O Blaid 47; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 47
**Derbyniwyd y cynnig.**

**NDM2532 Jane Hutt (Bro Morgannwg).**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mehefin 2005 ynghylch y Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005 drafft; a

2. Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol ag:
   a) y gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mehefin 2005; a
   b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mehefin 2005.

Dogfennau Ategol
Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau - Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005
Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005
The Higher Education Act 2004 (Commencement No.2 and Transitional Provision) (Wales) Order 2005 - Regulatory Appraisal - Dim fersiwn Gymraeg ar gael

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O Blaid 47; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 47
**Derbyniwyd y cynnig.**

**......................................**

**3.17pm**

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.27(iv) Rheoliadau Ffioedd mewn Sefydliadau Addysg Uwch (Cymru) 2005.**

**NDM2533 Jane Hutt (Bro Morgannwg).**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Ffioedd mewn Sefydliadau Addysg Uwch (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mehefin 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O Blaid 48; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Derbyniwyd y cynnig.**

**NDM2534 Jane Hutt (Bro Morgannwg).**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo bod y Rheoliadau Ffioedd mewn Sefydliadau Addysg Uwch (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mehefin 2005.

*Noder: Ni osodwyd Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn; mae Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion trefniadol o dan Reol Sefydlog 24.27 (i), (ii) a (iii).*

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Ffioedd mewn Sefydliadau Addysg Uwch (Cymru) 2005 - Dim fersiwn Gymraeg ar gael

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O Blaid 48; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Derbyniwyd y cynnig.**

**.....................................**

**3.25pm**

## Cynnig i gytuno ar ddiwygiad dros dro i'r Rheolau Sefydlog er mwyn caniatáu dirprwyon ar gyfer y Pwyllgor Cynghori ar y Papur Gwyn: Trefn Lywodraethu Well i Gymru.

**NDM2530 Jane Hutt (Bro Morgannwg).**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 37.1 a 37.4:

> 1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 29 Mehefin 2005;
>
> 2. Yn cytuno i ddiwygio'r Rheol Sefydlog fel yr amlinellir yn adroddiad y Pwyllgor Busnes; a
>
> 3. Yn cytuno y daw'r diwygiad hwn o'r Rheol Sefydlog i ben ar 30 Hydref 2005.

Dogfennau Ategol
Report of the Business Committee - Dim fersiwn Gymraeg ar gael

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O Blaid 48; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Derbyniwyd y cynnig.**

**......................................**

**3.25pm**

**Dadl ar Adroddiad Blynyddol Prif Weinidog Cymru ar gyfer 2004/2005.**

**NDM2528 Jane Hutt (Bro Morgannwg).**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol y Prif Weinidog 2005.

*Gellir cael copïau o'r ddogfen "Cyflawni ein Haddewidion", Adroddiad y Prif Weinidog 2005 drwy ddilyn y dolenni cysylltiedig:*

*Saesneg*
http://www.wales.gov.uk/keypubannualreports/content/2005/contents-e.htm
*Cymraeg*
http://www.cymru.gov.uk/keypubannualreports/content/2005/contents-w.htm

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

(1, 2, 3, 4 + 5)
(6, 7, 8, 9 + 10)

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu mai dim ond trwy ddefnyddio Menter Cyllid Preifat y mae Llywodraeth Lafur y Cynulliad yn cyflawni ei tharged ar gyfer adeiladu ysgolion.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O Blaid 13; Ymatal 0; Yn erbyn 36; Cyfanswm 49
**Ni dderbyniwyd Gwelliant 1**

**2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am gynhyrchu strategaeth dryloyw, integredig ar gyfer defnyddio'r gronfa ymladd-troseddu.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O Blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 49
**Ni dderbyniwyd Gwelliant 2**

**3. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Lafur y Cynulliad, hanner ffordd trwy dymor y Cynulliad, i gyflwyno tocynnau bws hanner-pris i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O Blaid 7; Ymatal 13; Yn erbyn 28; Cyfanswm 48
**Ni dderbyniwyd Gwelliant 3**

**4. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn condemnio Llywodraeth Lafur y Cynulliad am gefnu ar yr ymrwymiad yn ei maniffesto i ddarparu "Brecwast am ddim i bob plentyn ysgol gynradd."

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O Blaid 5; Ymatal 5; Yn erbyn 38; Cyfanswm 48
**Ni dderbyniwyd Gwelliant 4**

**5. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu mai dim ond yn awr, ar ôl dwy flynedd a hanner, y mae Llywodraeth Lafur y Cynulliad yn treialu cael gwared â thaliadau gofal cartref i bobl anabl.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O Blaid 11; Ymatal 9; Yn erbyn 28; Cyfanswm 48
**Ni dderbyniwyd Gwelliant 5**

**6. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at fethiant y Prif Weinidog i fynd i'r afael ag argyfwng y rhestri aros.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O Blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 48
**Ni dderbyniwyd Gwelliant 6**

**7. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at fethiant y Prif Weinidog i fynd i'r afael â'r diffygion ariannol sy'n wynebu sawl Bwrdd Iechyd Lleol ac ymddiriedolaeth GIG.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O Blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 48
**Ni dderbyniwyd Gwelliant 7**

## 8. David Melding (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y cryfheir yr economi gwybodaeth yn sgîl penderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol i beidio â chyflwyno ffioedd ychwanegol i fyfyrwyr Cymru.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O Blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 49
**Ni dderbyniwyd Gwelliant 8**

## 9. David Melding (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod y strategaeth economaidd yn cael ei pheryglu gan fethiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i bontio'r bwlch cyfoeth rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O Blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 48
**Ni dderbyniwyd Gwelliant 9**

## 10. David Melding (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn condemnio'r Prif Weinidog am ei fethiant i ddatblygu strategaeth gydlynus mewn perthynas â

therfynu'r CCNC, gan fod hynny wedi cyfrannu at ollwng Cymru i'r nawfed safle yng nghynghrair mewnfuddsoddi y Deyrnas Unedig.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O Blaid 19; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 47
**Ni dderbyniwyd Gwelliant 10**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O Blaid 30; Ymatal 0;Yn erbyn 19; Cyfanswm 49
**Derbyniwyd y cynnig.**

**.......................................**

## 4.46pm

**Dadl Fer - NDM2526 Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Anghenion Addysgol Arbennig.

**.......................................**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.13pm**

**.......................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 12 Gorffennaf 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

Gorffennaf 06, 2005

Adroddiad Gan Y Pwyllgor Llywodraeth Leol A Gwasanaethau Cyhoeddus - Local Authorities (Indemnities for Members and Officers) (Wales) Regulations 2005 - LD3923